LLEWYRCHED FELLY EICH GOLEUNI

# Y Llusern

Eglwys Ebeneser Ionawr / Chwefror 2025 Cyfrol 96 Rhif 1

**MAE D'EISIAU DI ARNAF - Peter Marshall, 1902-1949**

Mae d'eisiau di arnaf, Arglwydd;
mae d'eisiau arnaf yn awr.
Gwn fod llawer o bethau y gallaf wneud hebddynt,
ond hebot ti ni allaf fyw, ac ni feiddiaf farw.
Mae d'eisiau di arnaf pan ddaw gofidiau i'm blino,
a phan fydd cysgodion yn disgyn ar draws fy nyddiau.
Mae d'eisiau di arnaf pan fydd afiechyd
yn gosod ei law ar fy nheulu,
a phan fydd ofn yn fy ngyrru ar fy ngliniau.
Mae d'eisiau di arnaf pan fydd problemau a phenderfyniadau
anodd yn pwyso arnaf a minnau'n baglu
heb wybod i ba gyfeiriad i droi.
Ac er i'r haul dywynnu arnaf heddiw,
gwn fod d'eisiau di arnaf yn yr heulwen yn ogystal â'r storm.
Diolch am yr ymdeimlad o ddibyniaeth arnat
sy'n fy nghadw bob amser yn agos atat.
Helpa fi ddal gafael yn dy law
ac i wrando'n astud am ddoethineb dy lais.
Siarad gyda mi er mwyn i mi dy glywed yn fy nerthu
i wynebu amserau anodd ac i gyflawni tasgau heriol.
Nid wyf yn gofyn am daith esmwyth,
ond am ras i wynebu pob dydd yn dy gwmni,
pa mor galed bynnag fo'r ffordd,
pa mor herfeiddiol bynnag fo'r awr,
a pha mor dywyll bynnag fo'r awyr uwchben.
Mae d'eisiau di arnaf, Arglwydd;
mae d'eisiau di arnaf yn awr a phob amser.

## *Gair gan y Gweinidog*



**EILIAD**

Ym môr amser diferyn – yw eiliad
O'r hylif diderfyn;
Llam amrant, lleia' mymryn,
Ond ow'r pris! Nid aur a'i pryn.

**D. Pierce Roberts**

Ble'r aeth honna dudwch?

Mae wedi gwibio heibio bron cyn i mi sylwi ac yn sicr heb i mi gyflawni yr hyn a fwriedais. Cyfeirio rwyf at 2024. Mae'r blynyddoedd yn rhuthro heibio ribidires heb i mi gael fy ngwynt ataf ac mae honno eto wedi mynd i ebargofiant. Mae'n anodd credu eleni bod Vikki a finnau wedi bod yng Nghaerdydd ers 30ain o flynyddoedd a'r flwyddyn nesaf bydd yn ddeugain mlynedd ers inni briodi ac i finnau gael fy ordeinio yn weinidog i'r Arglwydd Iesu yn Wrecsam. Diolch i chi deulu Ebeneser am eich cynhaliaeth ohonom ac am gael cyd-gerdded gyda chi ar y daith. Cawsom lawer o brofiadau gyda'n gilydd yn gyffrous a diflas, yn llawen a thrist wrth fod yn bobl i Iesu Grist sy'n tystio i'r newyddion da.

Ond ni allwn fyw yn y gorffennol, dim ond yn y presennol, gan gynllunio ar gyfer y dyfodol. Felly, fe edrychwn ymlaen yn ffyddiog i weld beth fydd gan yr Arglwydd ar ein cyfer yn ystod 2025. Os Duw a'i myn, fe gawn gyfle eto i fod yn gorff Crist ac yn dystion i gariad Duw ar air ac ar weithred. Rydym yn byw mewn cyfnod heriol, lle mae cynulleidfaoedd yn lleihau a lle mae pobl yn gyndyn iawn i ymateb i bethau Cristnogol. Er hynny, gwneud gwaith Duw yr ydym ac felly byddwn yn dyfalbarhau yn ystod y flwyddyn hon yn egnïol gan dystio i'r Efengyl. Parhawn i addoli a gwasanaethu gan gynnal digwyddiadau fydd yn ein helpu i dyfu yn y ffydd. Byddwn hefyd yn gwahodd pobl newydd i ymuno â ni gan fod yn wresog ein croeso.

Mae tri pheth sy'n amlwg angenrheidiol, yn ein heglwysi. Y cyntaf yw bod pobl newydd yn dod i ffydd yn Iesu a thrwy hynny'n sylweddoli'r anghenraid i fod yn aelod mewn eglwys leol. Yn ail, mae angen rhagor o weinidogion ac arweinyddion sy'n barod i gyflawni gweinidogaethau Cristnogol yn ein plith, yn enwedig pobl ifanc. Yn drydydd, mae angen i ni wneud llawer mwy o weddïo gan gyflwyno'r sefyllfa bresennol i'r Arglwydd gan ofyn iddo am fendith arbennig yr Ysbryd Glân yn ein plith.

A chyda hynny, er ein bod wedi cyrraedd y mis bach bellach, hoffwn ddymuno blwyddyn newydd fendithiol, iach a ffyniannus i bawb ohonoch. Cerddwn yn hyderus gyda'n gilydd i'r dyfodol gan wybod fod Iesu, yr Atgyfodiad a'r Bywyd gyda ni.

**Alun Tudur**

# “Mae’r Haleliwia yn f’enaid i.”

Ar ddechrau pob blwyddyn newydd mae gennym gymysgfa o deimladau, fel hiraeth a diolch, wrth edrych yn ôl, a chyffro a phryder am yr hyn sydd i ddod. Byr yw ein cyfnod ar y ddaear ac, er ein holl honiadau hunanhyderus, bregus a meidrol ydym. Mae ffydd yn Iesu yn ein galluogi i edrych ymlaen tua’r dyfodol yn hyderus beth bynnag yw’n hamgylchiadau. Syniad ffug sydd gan bobl o Gristnogaeth, yw bod Duw yn ein gwobrwyo os ydym yn dda.  Mae rhai Cristnogion yn dysgu “prosperity gospel” sy’n dwyll celwyddog ac yn anfeiblaidd. Meddent – “Os ydym ni yn credu fe fydd Duw yn ein bendithio gyda bywyd rhwydd a chyfoeth materol.” Ond wrth edrych ar fywyd go iawn fe wyddom nad yw hynny’n wir. Mae pobl dda yn gallu cael bywydau difrifol o anodd. Mae Llyfr y Pregethwr yn sôn am hyn.

*Ond wedyn, dyma beth sy’n gwneud dim sens yn y byd yma: mae rhai pobl sydd wedi byw yn ufudd i Dduw yn cael eu trin fel petaen nhw wedi gwneud drwg; ac mae rhai pobl ddrwg sy’n cael eu trin fel petaen nhw wedi byw yn iawn! Fel dw i’n dweud, dydy’r peth yn gwneud dim sens!*

Nid yw cyfnodau anodd a chaled felly, yn golygu melltith Duw ar y Cristion. Symptom ydyw yn hytrach o’r byd syrthiedig hwn ar hyn ddigwydd yn sgil effeithiau’r cwymp.  Wrth i ni ystyried hyn ymhellach rwyf am i eiriau emyn Rhys Nicholas fod yng nghefn eich meddyliau a’r geiriau gwefreiddiol, “Mae’r Haleliwia yn fy enaid i a rhoddaf Iesu fy mawrhad i ti.”

Fel Cristnogion mae’r Beibl yn ein dysgu fod gennym ddealltwriaeth wahanol i bobl sydd heb ffydd. Ystyriwch y geiriau hyn o lyfr y proffwyd Habacuc.

*Dw i’n mynd i ddisgwyl yn dawel i ddydd trybini ddod ar y bobl sy’n ymosod arnon ni.*

*17Pan mae'r goeden ffigys heb flodeuo, a'r grawnwin heb dyfu yn y winllan; Pan mae'r coed olewydd wedi methu, a dim cnydau ar y caeau teras; Pan does dim defaid yn y gorlan, nac ychen yn y beudy; Drwy'r cwbl, bydda i'n addoli'r ARGLWYDD ac yn dathlu'r Duw sydd yn fy achub i! Mae'r ARGLWYDD, fy meistr, yn rhoi nerth i mi, ac yn gwneud fy nhraed mor saff â'r carw sy'n crwydro'r ucheldir garw. Habacuc 3: 17-19.*

Mae'r Arglwydd yn fy achub, ef yw fy meistr ac ef sy'n rhoi'r nerth sy'n gwneud fy ngherddediad trwy y bywyd hwn yn saff. Mae'r geiriau hyn mor drawiadol. O aralleirio hyn, mae'r proffwyd yn dweud er bod bywyd yn galed, eto dwi'n addoli'r Arglwydd trwy'r cwbl. Nid wyf yn deall pam fod bywyd yn anodd, eto rwy'n ymddiried yn Nuw.

Ein braint aruthrol, trwy Iesu, yw ein bod yn byw mewn perthynas gyda Duw. Dyma yw uchafbwynt ein bodolaeth a'n bywydau. Nid cyfoeth, nid eiddo, nid gyrfa, nid llwyddiant. Mae gennym y berthynas hon beth bynnag fydd yn digwydd i ni ac o ganlyniad rydym yn ddiogel ym mynwes ein Tad nefol. Rydym ni i gyd yn ein tro, fel teuluoedd ac unigolion, yn mynd trwy'r dyffryn tywyll du. Beth bynnag yw'r rhesymau am hynny; marwolaeth, iselder, salwch, problemau teuluol, problemau yn y gwaith, eto mae'n hapusrwydd a'n dedwyddwch yn Nuw. Mae'n ein caru, mae'n ein hachub ac y mae gyda ni trwy'r Ysbryd bob dydd. Gwyddom ein bod yn ddiogel ac fe roddir y sicrwydd hwnnw trwy ras Duw yn Iesu. Hyd yn oed os yw bywyd yn chwalu'n deilchion, nid yw ein perthynas gyda'r Arglwydd yn darfod ac nid yw caledi yn arwydd bod Duw wedi cefnu arnom. Cofiwch hynny yn y dyddiau anodd efallai y byddwch yn eu wynebu yn 2025.

Mae'r Haleliwia yn fy enaid i
a rhoddaf Iesu, fy mawrhad i ti.


**NEWYDDION**

## Cydymdeimlad

Trist oedd clywed am farwolaeth Cedric Jones, Radyr ar 20 Tachwedd 2024. Cydymdeimlwn gyda Brenda, Wendy, Jonathan a'u teuluoedd yn eu colled a'u hiraeth. Bu Cedric yn ddiacon cydwybodol, organydd rhagorol, yn cadw golwg cyson ar y capel a’r mans ac yr oedd bob amser yn llawn hwyl a thynnu coes. Diolchwn am ei fywyd.

Cydymdeimlwn gyda Malcolm a Jean Thomas yn eu profedigaeth. Bu farw brawd-yng-nghyfraith Jean a brawd Malcolm yn ddiweddar.

## Sefyll yn erbyn cam-drin domestig.




Eleni buom yn tynnu sylw at yr ymgyrch hon yn erbyn cam-drin domestig. Yn fyd-eang, mae menyw neu ferch yn marw bob 11 munud, o ganlyniad i gamdriniaeth gan bartner neu aelod o’r teulu. Dylai’r merched hyn fod gyda ni o hyd. Mae Prosiect y Gadair Goch yn ymgyrch gan Gristnogion sy'n rhan o 16 Diwrnod o Weithredu yn Erbyn Trais ar sail Rhywedd. Mae’n annog unigolion, mudiadau ac eglwysi i gadw cadair sy’n nodi'r gwagle a adawyd gan bob un o’r merched hyn a gollodd eu bywydau. 25 Tachwedd oedd “Diwrnod Rhyngwladol ar gyfer Dileu Trais yn Erbyn Menywod.

## OCC

Braint o'r mwyaf yw cael cefnogi cynllun blynyddol a weithredir gan fudiad Samaritan's Purse, 'Ymgyrch Plentyn y Nadolig'. Cyfrannwyd nifer o focsys i'r achos teilwng hwn. Ers 1990 mae dros 220 miliwn o focsys wedi'u cyfrannu gan unigolion ac eglwysi i blant mewn angen ar draws y byd. Y bwriad eleni yw cyfrannu o leiaf 260,000 o focsys yn ychwanegol. Gobeithio y byddwn yn clywed fod y targed hwn wedi'i gyrraedd.

## Rygbi Caerdydd Ebeneser



Ar nos Wener, 17eg o Ionawr aeth criw i weld tîm rygbi Caerdydd yn chwarae Connaught, o'r Iwerddon yn y Gwpan Sialens. Roedd yn gyfle da i gymdeithasu, gyda rhai yn mynd am bryd o fwyd cyn y gêm. Roedd y cwmni'n ddiddan, ac er gwaethaf Caerdydd yn colli o 28 i 19, cafwyd amser da yng nghwmni ei gilydd.

## Y Cristion

Os ydych yn derbyn Y Cristion mae'r amser wedi dod i dalu am rifynnau'r flwyddyn. Os y gallwch dalu £14.00 i Eilir Jones, neu trwy gyfrif Ebeneser, gan ddefnyddio cyfeirnod 'Y Cristion', byddwn yn dra diolchgar - Arwel Williams.

## Y Tyst

Os hoffech archebu copi o'r Tyst, (50c) rhowch wybod i Alison Jones. Mae'r Tyst yn ymddangos yn wythnosol o dan olygyddiaeth ein gweinidog.

## Cleifion

Rydym yn cofio'n dyner am y rhai sydd wedi derbyn triniaeth neu sydd o dan ofal meddygol. Cofiwn am ein cyd-aelodau sy'n gaeth i'w cartrefi neu gartrefi gofal: Delor Wedlake, Mair Evans, Iwan Morris a Rhian Ruddock. Mae Rhian wedi symud i gartref Willowbrook, Llaneirwg. Cofiwch weddïo drostynt a chodi'r ffôn am sgwrs.

Nid yw Iwan Morris, Machen, wedi bod yn hwylus yn ddiweddar.

Os gwyddoch am unrhyw un o'n haelodau sy'n sâl neu yn isel eu hysbryd, rhowch wybod i un o'r diaconiaid yn ddiymdroi.

## Cyfrannu at y gwaith

Y mae rhai aelodau'n cyfrannu'n fisol trwy archeb banc a diolchwn am y cyfraniadau hynny. Os nad ydych wedi cael cyfle i gyfrannu hoffem eich gwahodd i gyfrannu at waith yr eglwys, un ai trwy siec yn daladwy i Eglwys Ebeneser Caerdydd, neu'n uniongyrchol i gyfrif banc HSBC yr Eglwys – côd sortio 40-16-35, rhif y cyfrif yw 81042882, gan nodi eich enw fel cyfeirnod. Gyda diolch o flaen llaw am eich haelioni.

## Y Cylch

Cynhelir cyfarfodydd nesaf Y Cylch am 10.30 ddydd Mawrth 11/02 a 25/02 yng nghaffi'r Roundabout yr Eglwys Newydd.

## Nadolig 2024

Bu tymor yr Adfent yn un byrlymus; yn llawn addoliad, gweithgarwch a llawenydd. Bu gweithgor o aelodau yn brysur yn trefnu oedfaon arbennig, ac oherwydd hynny fe gafwyd amrywiaeth iachus o gyfarfodydd wrth ddathlu geni ein Gwaredwr a'n Meseia Iesu Grist. Diolch i aelodau'r gweithgor am eu gwaith. ***(Lluniau ar y dudalen gefn.)***

## Cymorth Cristnogol

Ar yr 8fed o Ragfyr cafwyd dwy oedfa'n seiliedig ar adnoddau Adfent Cymorth Cristnogol. Cymerwyd rhan gan nifer fawr o aelodau wrth iddynt gyflwyno hanes Shede o Darfur a'i hymdrech fawr i gynnal ei theulu. Mae De Sudan yn wlad sy'n cael ei rhwygo gan ryfel a'r argyfwng hinsawdd ac o ganlyniad y mae tlodi mawr.

Mae Cymorth Cristnogol law yn llaw â'u partneriaid yn cefnogi cymunedau yn Ne Sudan i greu bywyd newydd wrth aros am ddiwedd y rhyfel. Mae ei rhaglen cymorth ariannol yn cynnig cymorth brys ar unwaith i deuluoedd sy'n chwilio am loches, fel y gallan nhw amddiffyn eu hunain a'u plant rhag newyn, diffyg maeth a salwch. Diolch o galon i Rachel Jones am drefnu'r ddwy oedfa.

## Llanllanast

Sesiwn Nadolig Llanllanast fu ar fore Sul 15fed o Ragfyr, gyda chrefftau, fideo am eni'r Iesu, a bwyd blasus. Diolch i bawb fu wrthi'n trefnu, yn enwedig y criw diwyd sy'n gyfrifol am Lanllanast. Yna, yn y pnawn cafwyd Carolau a Chacen yn neuadd y Methodistiaid o dan arweinyddiaeth Catrin Roberts. Braf oedd cael croesawu cyfeillion atom i ganu a dathlu gyda'n gilydd.

## Cydaddoli

Ar y Sul cyn y Nadolig roedd dwy oedfa eto. Yn y bore cafwyd oedfa at y thema Gwarth Gwyrth a Gwerth y

Nadolig gydag aelodau'n arwain, a chyda'r nos roedd oedfa garolau ddwyieithog ar y cyd gydag aelodau yr eglwys Fethodistaidd. Yna ar fore dydd Nadolig daeth cynulleidfa niferus i gapel y Methodistiaid i addoli ac i fyfyrio ar arwyddocad y geni gwyrthiol. Daeth plant ag anrhegion i'w dangos a chafwyd llawer o hwyl yn eu cwmni.

**Cwrdd Chwarter Awr**

Cyfarfod ychwanegol sydd wedi bod yn cael ei gynnal gan Ebeneser, am 1.00 ar ddydd Iau cyntaf y mis, yng nghapel y Methodistiaid, yw'r Cwrdd Chwarter Awr. Y bwriad yw ei fod yn rhoi cyfle i bobl i fynychu gwasanaeth byr o addoliad yn ystod yr wythnos. I rai y mae'r Sul yn llawn gweithgareddau ac y mae'n anodd mynychu oedfa. I eraill y mae awr - a mwy - yn llawer rhy hir. Y mae hwn yn gyfleus ar gyfer pobl sy'n gweithio o gartref neu sydd wedi ymddeol. Beth am ddod draw i ymuno gyda ni yn ystod y misoedd nesaf ar ddydd Iau 6ed Chwefror, 6ed Mawrth, neu 3ydd Ebrill?

**Noson Gyri**

Ar nos Fawrth, 21ain o Ionawr cafwyd cyfle gwych i gymdeithasu tra'n codi arian at yr elusen. Roedd 29 wedi dod at ei gilydd i fwynhau pryd o fwyd ym mwyty Indiaidd yr Empire, Albany Road, gyda'r nod o godi arian i'r ddwy elusen, Hosbis y Ddinas a Marie Curie.

Wel sôn am wledd gafwyd gyda papadoms a sawsiau, byrbryd dechreuol i'w rannu, a dewis o brif gwrs. Do, yn wir fe gafodd pawb eu digon. Yn ystod y noson cafwyd cwis heriol, brofodd pwy oedd y rhai mwyaf gwybodus. Cyfanswm elw'r noson oedd £412. Swm hynod deilwng. Diolch o galon i bawb fu wrthi'n trefnu'r noson gyri nos Fawrth a phawb am eu cyfraniadau. Diolch hefyd i Sammy a'r staff am fwyd o'r safon uchod. Mae'n werth ymweld â'r bwyty am bryd danteithiol.

# Myfyrdodau Malcolm

Wel dyna achlysur i'w gofio oedd 'Myfyrdodau Malcolm'. Trefnwyd y noson gan bwyllgor elusen Eglwys Ebeneser, nos Fawrth, Tachwedd y 26ain, yng nghlwb tennis yr Eglwys Newydd, yng nghwmni Malcom Thomas, pennaeth cyntaf Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf.

Mae Malcolm yn aelod a diacon ffyddlon yn Ebeneser a threfnwyd y noson er budd elusennau'r eglwys eleni sef, Hosbis y Ddinas a Marie Curie.

Roedd y clwb tennis yn orlawn erbyn i Malcolm godi i annerch y gynulleidfa. Soniodd am ei atgofion a'i fyfyrdodau am y cyfnod wleidyddol gythryblus wnaeth arwain yn y pendraw at benderfyniad y cyngor sir i agor ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg cyntaf y Brifddinas ym Medi 1978. Talodd Malcolm deyrnged arbennig i ymdrechion di-flino a dyfalbarhad y Cynghorydd Emyr Currie-Jones oedd mor allweddol yn y frwydr i sicrhau sefydlu'r ysgol.



Disgrifiodd Malcolm y cyffro wrth i Ysgol Glantaf agor am y tro cyntaf, a hynny ar yr un safle â'r ysgol uwchradd Saesneg leol, oedd yn y broses o dirwyn i ben. Soniodd am y brotest wrth brif fynedfa'r ysgol ar ddiwrnod cyntaf agor Glantaf gan rai o'r trigolion lleol oedd yn gwrthwynebu agor ysgol Gymraeg ar draul eu hysgol leol. Bu'n gyfnod digon heriol i'r

staff a'r disgyblion wrth i'r ysgol Gymraeg dyfu a'r ysgol Saesneg edwino'n flynyddol.  Penodwyd sawl aelod o staff o'r ysgol Saesneg, oedd yn medru'r Gymraeg, i staff newydd Ysgol Glantaf a chael y profiad o ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg am y tro cyntaf.

Roedd yn hyfryd cael cwmni Bryan James, dirprwy bennaeth cyntaf yr ysgol yn y gynulleidfa, wnaeth gymaint i gefnogi a hyfforddi aelodau staff, ym mlynyddoedd cynnar yr ysgol, i wella eu sgiliau llythrennedd, er mwyn iddynt fod yn hyderus yn eu gallu i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Roedd Malcom wrth eu fodd yn sôn am rai o'i hoff atgofion am ei gyfnod o 17 mlynedd yn bennaeth yr ysgol, oedd yn cynnwys teithiau i Langrannog a theithiau tramor gyda'r adran gerdd a'r adran addysg gorfforol; cyngherddau a sioeau cerdd; y bandiau a ddaeth o'r ysgol gan gynnwys Hanner Pei, U-Thant a'r Crumblowers; llwyddiannau chwaraeon timau ac unigolion; llwyddiannau academaidd TGAU a Safon Uwch a llwyddiannau unigolion mewn llu o feysydd traws-gwricwlaidd.  Mae Malcolm wrth ei fodd yn olrhain gyrfaoedd llu o gyn-ddisgyblion ac yn ymhyfrydu yn eu llwyddiant.  Y dysgwyr oedd yn dod yn gyntaf gyda Malcolm – bob tro!  Wrth gloi, diolchodd Malcolm yn arbennig i Jean, ei wraig, am fod mor gefnogol a gofalgar ohono, yn enwedig yn ystod ei gyfnod fel pennaeth.

Yn ystod ail hanner y noson cafwyd anerchiadau bendigedig gan unigolion a ranoddd y daith gyda Malcolm, yn ystod blynyddoedd cynnar yr ysgol.

Robyn Anderson oedd enw'r disgybl cyntaf ar gofrestr Ysgol Glantaf a siaradodd Rob am ei atgofion cynnes a chyffrous o fod yn un o'r 99 disgybl oedd ym mlwyddyn gyntaf yr ysgol.  Darllenodd nodau creiddiol yr ysgol o'r llawlyfr a roddwyd i'r disgyblion a'u rhieni ar y diwrnod

cyntaf, ac roedd ganddo hefyd gopi o'i adroddiad cyntaf. Diolchodd yn bersonol i Alun Guy a oedd yn y gynulleidfa am adroddidad cerdd mor ganmoladwy ar ddiwedd ei flwyddyn cyntaf!



Dau o athrawon cyntaf yr ysgol oedd Alun Guy ac Anthony Evans, a chafwyd hwyl a phleser yn gwrando ar eu hatgofion o'r dyddiau cynnar. Mawr oedd eu diolch a'u gwerthfawrogiad i Malcolm am ei arweiniad cadarn ac am ei ofal dros ei staff.

Negeseuon tebyg o edmygedd a diolch i Malcolm oedd gan Ellis Griffiths, dirprwy bennaeth, a Delyth Medi Lloyd ar ran yr holl staff a fu mor ffodus i weithio dan ei arweinyddiaeth ef.



Roedd hi'n achlysur hyfryd ac yn gyfle am aduniad i gyn-aelodau staff yr ysgol oedd yn bresennol ym mlynyddoedd cynnar Ysgol Glantaf.

Fe gasglwyd £900.00 at yr elusennau pwysig drwy werthiant tocynnau a raffl.

Diolch yn fawr iawn i Aled a Non, swyddogion y clwb tennis am eu croeso cynnes a'u gwasanaeth cyfrwng Cymraeg gwych.

# Het Wen Ar Ei Ben



Cyrhaeddodd Dafydd Williams, (1779 – 1874) Troedrhiwdalar, ben ei daith i Aberhonddu yn drybola ac yn wlyb at ei groen. Roedd wedi teithio trwy ddannedd gwynt Mynydd Epynt a'i law mân llorweddol. Roedd ei draed yn ddiffrwth, ei drwyn yn goch a'i gefn yn llaith gan fod yr eirlaw wedi treiddio trwy haenau dyfnaf ei ddilladach. Ar ei ben roedd het ddu ond erbyn diwedd ei bererindod roedd honno yn an-effeithiol lipa gan y gwlybaniaeth. Byddai'n well pe bai wedi gwisgo gogor ar ei ben. Roedd DW wedi laru ar hyn oherwydd nid dyma'r tro cyntaf i'w benwisg fod yn ddffygiol. Felly drannoeth fe aeth i'r siop leol i brynu het newydd sbon danlli. Gwelodd un oedd at ei ddant - neu o leiaf at ei goryn - het gref, wen ac urddasol. Gofynnodd y cwestiwn allweddol i'r siopwyr, sef, a yw hon yn dal dŵr? Yr hyn a atebwyd yn gadarnhaol. Felly, fe'i prynodd yn y fan a'r lle gan ddweud, "*Mi hoffais hi yn fawr, ac yr wyf yn gwisgo het wen byth oddiar hyny, a mwy na thebyg mai het wen wisgaf tra fyddaf byw mwyach.*" *(Aralleiriad yw hwn o'r hanes a geir yn Cofiant Y Diweddar Barch. David Williams, Troedrhiwdalar gan Avan Griffiths, 1877.) O hynny ymlaen roedd DW yn enwog fel gweinidog tori cyt a wisgai het wen uwchraddol, fel y gwelir yn y llun.*

**Anhwylder**

Yn yr un cofiant fe geir hanes arall amdano ym 1833 yn

dioddef o or-guriad y galon, yr hyn a’i gofidiai’n fawr. Ni allai gysgu’r nos na phregethu ar y Sul ac yr oedd mewn iselder yn darogan ei farwolaeth annhymig ei hun. Ymgynghorodd â meddygon gorau’r fro a darllenodd lyfr meddygol enwog Dr. Buchanan gan hunan ddadansoddi ei fod yn dioddef o “hypochondriae spleen” neu hyd yn oed “scerbutic”, ond i ddim diben. (Tud. 70) Reodd yn cyrraedd pen ei denyn felly penderfynodd, gan ei fod yn byw gerllaw, ymweld â ffynnon Llanwrtyd. Dywedai, “ Yr oeddwn mor wan a brwynen, nis gallwn braidd symud.” Ond wedi ychydig ddyddiau o yfed o ddŵr y ffynnon, “torrodd gyfled a’m llaw o scurvy allan rhwng fy ysgwyddau ar fy nghefn; daliais i’w yfed am ychydig ddyddiau yn mhellach, a gadewais yn ddyn iach, ac ni theimlais byth oddiwrth y clefyd hwnnw eilwaith, yr hwn a ofnwn yn fwy na dyn a chleddyf.”  Fe gafodd iachâd o’i gyflwr truenus.

Yna, fe ychwanega Avan Griffiths y geiriau hyn. “Yna gyda hyawdledd mawr traethai ar rinweddau y ffynnon a’i gwellhaodd. Bu yn ymwelydd cyson â hi, a chynghorai i eraill wneud yr un modd.” Cafodd iachâd o’r ffynnon, siaradai am y ffynnon, a gwahoddai eraill i ymweld â hi.

Dyma ddarlun o’r Cristion. Trwy'r Iesu fe gawn iachâd, ein braint yw sôn amdano wrth eraill yn gyson gan eu gwahodd i ddod at yr Arglwydd i gael gwellhad i’w anhwylderau.

Meddai Iesu, “ond pwy bynnag sy'n yfed o'r dŵr a roddaf fi iddo, ni bydd arno syched byth. Bydd y dŵr a roddaf iddo yn troi yn ffynnon o ddŵr o'i fewn, yn ffrydio i fywyd tragwyddol." Ioan 4:14.

## Cyhoeddi Rhestr Wylio Open Doors ac erlid Cristnogion

Yn ddiweddar cyhoeddodd yr elusen Open Doors ei Rhestr Gwylio'r Byd gogyfer â 2025, a chafwyd digwyddiad yn adeilad y Pierhead ym Mae Caerdydd dan nawdd y Gynghrair Efengylaidd i nodi'r achlysur. Y ffaith frawychus yw nad yw nifer ein brodyr a'n chwiorydd yng Nghrist sy'n cael eu herlid am eu ffydd erioed wedi bod mor uchel. Mae dros 380 miliwn o Gristnogion ledled y byd yn wynebu erledigaeth ddwys.

Dyna 1 o bob 7 Cristion.

Dyna 15 miliwn yn fwy na'r llynedd, a chynnydd o 140 miliwn ers 2018.

Clywyd gan Jim Stewart, Rheolwr Ymgysylltu Eglwysi Cymru Open Doors, am y gwahanol ffactorau sy'n annog erledigaeth. Yn gyntaf, anhrefn – sy'n cael ei achosi gan wrthdaro, tor cyfraith sefydliadol a gwrthryfel Mwslemaidd. Yng nghanol yr anhrefn hwn gall gelynion Cristnogion ymddwyn heb ofni cael eu ceryddu. Yn ail, mae grym rheoli yn cael ei nodi fel achos erledigaeth. Wrth i egwyddorion ac ymddygiad gorawdurdodol neu unbenaethol gynyddu, mae gwahanol sefydliadau'n cynyddu'r pwysau a'r trais yn erbyn Cristnogion lleiafrifol.

Unwaith eto, Gogledd Corea sydd ar frig y rhestr, a chlywyd hanes ysbrydoledig Timothy Cho. Rhannodd am ei brofiad o gael ei eni a'i fagu yng Ngogledd Corea fel mab i 'fradwr' gwleidyddol cyn iddo lwyddo i ffoi ar ôl cael ei garcharu bedair gwaith a chyn iddo ddod i ffydd yng Nghrist. Bellach mae'n ymgyrchydd dros hawliau dynol. Y deg gwlad ar frig Rhestr Byd Open Doors yw'r canlynol: 1. Gogledd Corea, 2. Somalia, 3. Yemen, 4. Libia, 5. Swdan, 6. Eritrea, 7. Nigeria, 8. Pacistan, 9. Iran, 10. Affganistan.

Diddorol nodi mai Cymro sy'n cael ei gofio am fynd â'r Efengyl i Gorea, sef Robert Jermain Thomas a ferthyrwyd ym 1866. Pwysig hefyd nodi fod cymunedau o Gristnogion sy'n byw yng Nghymru o nifer o'r gwledydd hyn sydd ar restr y deg uchaf, a'u bod yn rhan o fywyd ysbrydol yr eglwysi yn y wlad hon. Anogodd Jim Stewart ni i weddïo dros ein brodyr a'n chwiorydd sy'n byw dan erledigaeth. Yn benodol, gofynnodd i ni weddïo dros y rheiny sy'n byw yn Affrica Is-Sahara. Dyma'r lle mwyaf treisgar yn y byd i Gristnogion. Mae an-sefydlogrwydd gwleidyddol dybryd yr ardal wedi arwain at wrthdaro si-fil ac wedi rhoi cyfle i Fwslemiaeth filwriaethus ffynnu. Rhannau o Ni-geria yw'r llefydd peryclaf i fod yn Gristion yn y byd. Yno gwelir cymunedau Cristnogol yn cael eu targedu'n ddidrugaredd gan grwpiau milwriaethus megis Boko Haram a milisia'r Fulani. Mae ansefyd-logrwydd gwleidyddol hefyd wedi arwain at drais yn erbyn Cristnogion yng Ngweriniaeth Affrica Ganolog (27), Gweriniaeth Ddemocrataidd y Congo (35), Mali (14), Burkina Faso (20) a Niger (28). Mae'r ansefyd-logrwydd a'r trais yn arwain at argyfwng pellach wrth i filiynau o Grist-nogion gael eu gorfodi i adael eu cartrefi. 'Does dim rhaid i chi alaru fel mae pawb arall yn galaru – does ganddyn nhw ddim gobaith' (1 The-saloniaid 4:13).

Nod Open Doors yw cefnogi ein brodyr a'n chwiorydd yn y sefyllfa-oedd hyn, gan eu cynorthwyo'n ymarferol fel y gallan nhw ddal eu gafael ar y gobaith sydd ganddynt yn Iesu, a rhannu'r gobaith hynny ag eraill, hyd yn oed yn y sefyllfaoedd mwyaf tywyll. Beth am i ni, eglwysi Cymru, ymroi eleni i weddïo dros ein brodyr a'n chwiorydd sy'n wynebu erledigaeth? Mae gan Open Doors sawl adnodd i'n cy-northwyo ac mae modd cysylltu â Jim Stewart ar jims@opendoorsuk.org.

*Cynan Llwyd Ysgrifennydd Cyffredinol Cytûn*

*(Bydd Jim Stuart yn siarad yng nghwrdd gweddi Ebeneser am 7.30 nos Lun 10fed o Fawrth yng nghaffi'r Methodistiaid, yr Eglwys Newydd.)*




# Creu Torchau Nadoligaidd

Ar ddechrau mis Rhagfyr daeth criw ohonom i neuadd Eglwys y Methodistiaid yn yr Eglwys Newydd i greu torchau Nadoligaidd. Arweinwyd y gweithdy gan Shân Roberts, Siop Y Felin (Blodau Tlws). Cawsom noson ddifyr iawn a chyfle i gymdeithasu ac i fod yn greadigol! Roedd pawb wedi mwynhau'r profiad ac yn falch iawn o'r hyn roeddynt wedi'i greu. Diolch o galon i bawb a ddaeth i gefnogi'r digwyddiad er budd ein helusennau eleni. Diolch yn arbennig i Shân am ein harwain ac am ei harbenigedd. Diolch hefyd i bwyllgor Elusennol Ebeneser am eu cymorth i drefnu'r noson. Codwyd £417 i Hosbis y Ddinas ac i Marie Curie.



# Cyfarfodydd Angor

BAY CHURCH
GRANGETOWN

***Diolch i Dduw am:***

- Ei ffyddlondeb wrth i'r gwaith sefydlu yn Grangetown.
- Ymateb positif i ddigwyddiadau dros y Nadolig gyda tafarn y Grange yn llawn ar gyfer y carolau.



**Noson wych, gyda Hywel yn arwain y canu carolau yn Nhafarn y Grange.**

***Ymunwch gyda ni i weddio am:***

- geisiadau am arian i fedru cynnal a tyfu y gwaith i'r dyfodol.
- wynebau newydd i ymuno ac i rai o'r ardal sydd ddim eto yn nabod Iesu i'w gyfarfod a'i adnabod.

***Dros y misoedd nesaf bydd:***

- Cyfres nesaf o bregethau ar Gweddi
- Myfyrwyr yn ail-ymuno ac yn cael cyfleoedd i arwain.
- Digwyddiad ‘Parti Pasg’ yn y pafiliwn yn Grangetown a chyfle i estyn allan i deuluoedd.



# Calendr

Cynhelir oedfa'r bore yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd, Old Church Rd, CF14 1AD.

Cynhelir oedfa'r pnawn yng nghapel y Methodistiaid, Penlline Rd, CF14 2AA. .

Cynhelir Angor ar yr ail a'r pedwerydd Sul o bob mis yn Bay Church, Corporation Rd, Grangetown am 4:30yp.

Pob nos Lun am 7.30 y.h. cynhelir y cwrdd gweddi yng nghapel y Methodistiaid ac ar Zoom. Dolen yn yr e-bost wythnosol.

## Suliau Chwefror a Mawrth 2025

**2 Chwefror** - 10:00yb yn CEN a 3:00yp Yr Eglwys Fethodistaidd dan ofal Alun. Cymun yn y pnawn. Paned i ddilyn yr oedfa.
**9 Chwefror** - 10:00yb yn CEN a 3:00yp Yr Eglwys Fethodistaidd dan ofal Alun.
**16 Chwefror** - 10:00yb Llan Llanast yn CEN a 3:00yp Yr Eglwys Fethodistaidd dan ofal Alun.
**23 Chwefror** - 10:00yb yn CEN a 3:00yp Yr Eglwys Fethodistaidd dan ofal Sian Rees.

**2 Mawrth** - 10:00yb yn CEN a 3:00yp Yr Eglwys Fethodistaidd dan ofal Alun. Cymun yn y pnawn. Paned i ddilyn yr oedfa.
**9 Mawrth** - 10:00yb yn CEN a 3:00yp Yr Eglwys Fethodistaidd. Cyfarfodydd Pregethu Hanner Blynyddol: Parch.Ddr Geraint Tudur.
**16 Mawrth** - 10:00yb Llan Llanast yn CEN a 3:00yp Yr Eglwys Fethodistaidd dan ofal Alun. Cymun yn y bore.
**23 Mawrth** - 10:00yb yn CEN a 3:00yp Yr Eglwys Fethodistaidd dan ofal...I'w gadarnhau.
**30 Mawrth** - 10:00yb yn CEN a 3:00yp Yr Eglwys Fethodistaidd dan ofal Alun.



Noson Torchau Nadolig





Carol a chacen





Criw da yn mwynhau gwledd Indiaidd yn yr Empire, Allbany Rd